Athina Summerbell

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Rwyf wrth fy modd i gael y cyfle i ymuno ag CGGC fel ymddiriedolwr oherwydd rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hun pa mor bwerus gall y trydydd sector fod o ran trawsnewid bywydau – gan ddechrau gyda'm mywyd fy hun.

Wedi fy magu mewn hen bentref glofaol yng Nghwm Gwendraeth, bûm yn ddigon ffodus i gael fy nghefnogi gan fudiadau fel Girl Guiding, a agorodd ddrysau a dysgu sgiliau bywyd amhrisiadwy i mi. Gwnaeth y profiadau hyn ennyn ymdeimlad dwfn o gymuned ynof ac rwy'n credu bod newid go iawn yn digwydd pan fyddwch chi'n torchi eich llewys ac yn gwneud i bethau ddigwydd.

Fel Pennaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu a Pholisi ym mudiad Cyngor Ffoaduriaid Cymru, rwy'n dod â phrofiad blaenorol profedig o ddatrys problemau a meddwl yn strategol. Rwyf wedi arwain timau, sicrhau cyllid hanfodol a meithrin partneriaethau strategol – ac mae'r holl bethau hyn wedi canolbwyntio ar greu effaith barhaus. Rwy'n frwd ynghylch sicrhau bod y sector yn cael ei gymryd o ddifrif, yn cael ei gyllido'n deg, ac yn cael ei gefnogi mewn modd ystyrlon.

Rwy'n credu mewn grym syniadau beiddgar a safbwyntiau amrywiol, ac yn ymroddedig i helpu CGGC i gyflawni ei nodau a rhagori arnynt. Gyda'm cefndir a'm mrwdfrydedd ar gyfer y sector, rwy'n barod i gyfrannu at genhadaeth CGGC a helpu i adeiladu Cymru gryfach, fwy cynhwysol.